| | |
|---|---|
| Adroddiad i'r: | Pwyllgor Cynllunio |
| Dyddiad y Cyfarfod: | 16 Medi 2015 |
| Aelod/ Swyddog Arweiniol: | Cyng. David Smith, Parth y Cyhoedd<br>Angela Loftus, Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai |
| Awdur yr Adroddiad: | Karsten Bruβk, Swyddog Cynllunio |
| Teitl: | Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006 - 2021: Adroddiad Monitro Blynyddol Drafft 2015 |

1. **Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Cyhoeddiad arfaethedig Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) Drafft 2015 cyntaf - Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006 – 2021 (CDLl)

2. **Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Rhoi gwybod i'r Aelodau am gynnwys yr Adroddiad Monitro Blynyddol (AMR) cyntaf y CDLl.

3. **Beth yw'r Argymhellion?**

Bod yr Aelodau yn nodi cynnwys yr adroddiad hwn.

4. **Manylion yr Adroddiad**

O dan rwymedigaethau adran 76 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, fel y'i diwygiwyd, ac adran 37 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005, mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i gynhyrchu adroddiad monitro blynyddol i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru (LlC) erbyn 31 Hydref bob blwyddyn a'i gyhoeddi ar ei wefan.

Y ddogfen sydd ynghlwm, gweler Atodiad 1, yw'r adroddiad monitro blynyddol cyntaf (AMR) a baratowyd gan Gyngor Sir Ddinbych. Er bod perfformiad y polisi yn cael ei asesu ac yn seiliedig ar y cyfnod 1 Ebrill 2014 i 31 Mawrth 2015, mae'r ddogfen yn cynnwys cyfeiriad at newidiadau mewn deddfwriaeth ac amgylchiadau lleol sydd wedi dylanwadu ar wneud penderfyniadau ers mabwysiadu'r Cynllun ym mis Mehefin at 2013.

Mae monitro yn cynrychioli dolen adborth hanfodol o fewn y broses o lunio polisïau. Dylai nodi'r heriau allweddol, y cyfleoedd a'r ffyrdd posibl ymlaen ar gyfer adolygu ac addasu polisïau lleol. Mae'r broses yn offeryn ar gyfer mesur perthnasedd a llwyddiant y Cynllun Datblygu Lleol a nodi unrhyw newidiadau angenrheidiol. Mae hefyd yn rhoi adborth ar y graddau mae'r Strategaeth y CDLl a pholisïau yn cael eu darparu a'u cyflawni.

Bydd swyddogion yn ceisio penderfyniad i gyflwyno AMB CDLl i Lywodraeth Cymru oddi wrth y Cabinet ym mis Hydref 2015.

5. **Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Nid oes angen penderfyniad ar yr eitem hon. Fodd bynnag, mae'r CDLl yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol canlynol drwy nodi'r ble a sut bydd datblygiadau newydd yn cael eu gwneud yn y Sir hyd at 2021:

- Datblygu'r economi leol;
- Sicrhau mynediad at dai o ansawdd da; a
- Moderneiddio'r cyngor i ddarparu arbedion effeithlonrwydd a gwella gwasanaethau i'n cwsmeriaid

6. **Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes unrhyw gostau am gymryd sylw o gynnwys yr adroddiad hwn.

7. **Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

Nid oes Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) wedi cael ei gynnal am nad yw'r adroddiad yn ceisio penderfyniad ar bolisi, strategaeth, trefn waith na rhaglen y Cyngor. Mae'r AMB yn cynnwys data ystadegol yn bennaf sy'n dangos perfformiad y CDLl.

8. **Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Cyflwynwyd AMB interim y Cynllun Datblygu Lleol yn Briffio Cabinet ym mis Ionawr 2015. Ymgynghorwyd ag aelodau'r Grŵp Llywio CDLl ar strwythur yr adroddiad a sut i'w gyflwyno. Bydd swyddogion yn ceisio penderfyniad i gyflwyno AMB y CDLl i Lywodraeth Cymru oddi wrth y Cabinet ym mis Hydref 2015.

9. **Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol sy'n gysylltiedig â'r adroddiad hwn. Fodd bynnag, os unrhyw gostau yn codi, yna bydd angen iddynt gael eu cynnwys o fewn y cyllidebau refeniw presennol ar gyfer y gwasanaeth.

10. **Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Nid oes unrhyw risgiau a nodwyd.

11. **Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae'r ddyletswydd statudol i gynhyrchu adroddiad monitro blynyddol yn cael ei amlinellu yn Adran 76 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004.